

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



Ymgynghoriad Cyhoeddus

Rydym eisiau cael eich barn ar ddatblygu Strategaeth
Amgylcheddol ar gyfer 2020 ac ymlaen.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 4 Hydref 2019.

Rhagarweiniad

Ar gyfer pwy mae'r ymgynghoriad?

Os oes gennych chi ddiddordeb yn nyfodol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'r ymgynghoriad yma ar eich cyfer chi.

Bob blwyddyn, cyn penderfynu ar ei gynllun ar gyfer y flwyddyn ganlynol, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwahodd sylwadau ar bwnc arbennig. Mae syniadau, argraffiadau a gwahanol safbwyntiau y mae pobl yn eu cyfrannu yn gymorth mawr i sicrhau bod cynllun yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn un da.

Does dim angen i chi fod yn arbenigwr ar faterion amgylcheddol i ymateb. Yr unig beth mae'r Awdurdod yn ei ofyn yw eich bod chi'n meddwl o ddifri am y materion ac yn cyflwyno eich barn, syniadau neu wybodaeth erbyn y dyddiad cau.

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad?

Eleni, mae'r Awdurdod yn holi ynglŷn â datblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y tymor hir. Beth ddylai'r Strategaeth ei gynnwys yn eich barn chi? Beth ddylai fod yn flaenllaw ym meddwl yr Awdurdod wrth gynllunio ar gyfer yr 20 neu'r 30 mlynedd nesaf? Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer y gwasanaethau y gallai fod yn eu darparu yn y degawdau nesaf?

Wrth edrych yn ôl dros y 30 mlynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld newidiadau mawr yn y ffordd y mae pobl yn byw, a hefyd o ran beth mae pobl yr ardal yn disgwyl ei gyfrannu tuag at wasanaethau cyhoeddus, a'i gael gan wasanaethau cyhoeddus. Beth yn eich barn chi sy'n debygol o ddigwydd dros y 30 mlynedd nesaf? A oes angen ystyried unrhyw beth penodol ar gyfer Gogledd Cymru?

Newid yn yr hinsawdd, cyfrifoldeb am yr amgylchedd, cyfrifoldeb cymdeithasol...beth hoffech chi ei weld yng nghynlluniau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer y dyfodol? Mae pawb yn gwybod bod y Gwasanaeth yn un sydd wedi newid ac addasu'n fawr dros y blynyddoedd. Ond pur anaml mai'r peth gorau i'w wneud yw disgwyl tan y funud olaf. Dyna pam mae angen i'r Awdurdod gynllunio ymlaen llaw drwy gael strategaeth hirdymor y mae modd ei haddasu.

Sut i ymateb

Anfonwch eich syniadau a'ch barn atom erbyn **4 Hydref 2019**.

Drwy'r post i:

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych, LL17 0JJ

Drwy e-bost i:

futurefire@nwales-fireservice.org.uk

Gwybodaeth gefndirol

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ar draws ardaloedd y chwe cyngor sir yng ngogledd Cymru, ac mae'n gwasanaethu poblogaeth breswyl yr amcangyfrifir ei bod fymryn dan 700,000 o bobl, a hynny mewn ardal sy'n 2,375 o filltiroedd sgwâr.

Mae'n cyflogi rhyw 900 o bobl mewn swyddi llawn amser a rhan amser, ac mae mwy nag un o bob tri o'i weithlu yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae ei ymateb brys wedi'i drefnu o gwmpas 44 o orsafoedd tân sydd wedi'u lleoli ledled Gogledd Cymru. Mae ganddo fflyd o 54 o injanau tân a 35 o beiriannau eraill, gan gynnwys unedau diogelu'r amgylchedd, peiriannau ALP, cerbydau mynediad cyfyng, peiriannau cludo ewyn, cychod, achub technegol ac unedau rheoli digwyddiadau. Mae hefyd yn cadw 'fflyd' wen, sef 100 o gerbydau ar gyfer gwaith nad yw'n argyfyngau.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymateb i fwy na 5,000 o ddigwyddiadau brys bob blwyddyn, ac mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â'r tywydd. Mewn blynyddoedd sych a phoeth, mae tanau awyr agored yn fwy cyffredin, ac mewn blynyddoedd gwlyb ac oer, mae'n fwy arferol gweld cynnydd mewn tanau simnai, llifogydd a stormydd. Mewn ambell flwyddyn wrth gwrs, mae cyfnodau o dywydd sych a phoeth a thywydd gwlyb ac oer. Y llynedd, roedd 14% o'r digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn argyfyngau nad oeddent yn danau, ac roedd y gweddill yn cynnwys canran gyfartal o danau a galwadau diangen.

Mae'n gwario dros £35 miliwn o gyllideb refeniw flynyddol, ac mae tua 71% o hynny yn mynd ar gostau gweithwyr, 20% ar gostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, 10% ar ariannu cyfalaf; a'r 1% cyfatebol yn dod fel incwm.

Mae'r Awdurdod yn cymryd ei swyddogaeth ataliol o ddifri, ac mae'n dyrannu adnoddau ar gyfer rhaglenni ysgolion, ymgyrchoedd diogelwch, negeseuon ar y cyfryngau, archwilio safleoedd annomestig, ymweld â chartrefi pobl i roi cyngor ar ddiogelwch yn y cartref, lleihau llosgi bwriadol a gweithio gyda grwpiau penodol fel ffermwyr a thirfeddianwyr. Mae'r gweithgareddau ataliol nid yn unig yn gwneud synnwyr o ran diogelwch y cyhoedd, ond maent hefyd yn helpu i ddiogelu amgylcheddau adeiledig a naturiol, tir amaethyddol a chynefinoedd pwysig, ac maent yn cyfrannu at dir, awyr a dŵr glanach.

Fel ymatebwr yng Nghategori 1 dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod ar gael i ymateb i ddigwyddiadau mawr a allai fygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r prif gadwyni cyflenwi.

Hefyd, rhaid iddo barhau i fod ar gael i ddiheintio pobl ar raddfa fawr ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol neu niwclear.

Pam mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer 2020 ac ymlaen?

Gall yr Awdurdod fod yn falch o'r hyn mae wedi'i gyflawni eisoes o ran ei bolisiau amgylcheddol, ond mae angen iddo barhau i wneud mwy. Yn 2010, fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Yn 2011, sefydlodd Fwrdd Datblygu Cynaliadwy i helpu i leihau faint o ynni mae'n ei ddefnyddio ac i leihau'r effaith y mae ei adeiladau a'i gerbydau yn ei chael ar yr amgylchedd. Yn 2013, fe wnaeth yr Awdurdod ail-ymrwymo i'w Bolisiau Ynni ac Amgylcheddol, ynghyd ag i raglen o welliannau o ran y ffordd mae'n defnyddio tanwydd, cyfleustodau ac adnoddau; y ffordd mae'n rheoli gwastraff; a'r ffordd mae'n hybu bioamrywiaeth.

Pan ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, trodd yr Awdurdod ei sylw at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd hon a chanfod ffyrdd o weithio â sefydliadau eraill i wella llesiant amgylcheddol, yn ogystal â llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol. Un o ofynion allweddol y Ddeddf yw gweithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".

Fe wnaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 baratoi'r ffordd i Lywodraeth Cymru osod targedau interim ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer 2020, 2030 a 2040 (gan arwain at 80% o leiaf o ostyngiad erbyn 2050) a "chyllidebau carbon" pum mlynedd, sy'n gosod terfynau ar gyfanswm yr allyriadau y gellir eu hallyrru yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynllun carbon isel ar gyfer sicrhau Cymru carbon isel. Yn fuan wedyn, datganodd fod argyfwng yn yr hinsawdd er mwyn cryfhau a symbylu camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, a hynny gartref ac yn rhyngwladol. Mae un o'r nodau'n ymwneud â lleihau ôl troed carbon cynnyrch Cymreig drwy gyflwyno economi mwy effeithlon (cylchol) ar gyfer adnoddau. Un rhan o'r gwaith o alluogi hynny fyddai trwy gaffael yn y sector cyhoeddus i ysgogi'r farchnad.

Ym mis Mehefin 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad pellach i sicrhau 95% o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, a'r uchelgais yw cyrraedd sero-net.

A fydd y Newid yn yr Hinsawdd yn effeithio ar y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn gwirionedd?

Bydd, rydym yn credu y bydd. Mor bell yn ôl â 2006, roedd adroddiad ymchwil¹ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn cydnabod yr effaith y byddai'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o'i chael ar wasanaethau tân ac achub:

Bydd y newid yn yr hinsawdd yn dod â hafau poeth a sych, a gaeafau cynhesach a gwlybach yn amlach, a bydd digwyddiadau tywydd eithafol i'w cael yn amlach, megis glawogydd trwm a llifogydd, sychder yn yr haf, a llifogydd ar yr arfordir.

[...] bydd y newid yn yr hinsawdd yn arwain at hafau poeth yn amlach, felly bydd cynnydd yn nifer a difrifoldeb tanau glaswelltir a choedwigoedd, felly bydd angen llawer o ymdrech ychwanegol gan y Gwasanaethau Tân ac Achub. Rhagwelir hefyd y bydd yr hafau hyn yn rhai sych iawn, a gallai hynny arwain at brinder dŵr. Bydd prinder dŵr yn ystod yr haf yn effeithio ar y Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU, o ran hyfforddiant a diffodd tanau.

Dangosir hefyd y bydd mwy o lawiad yn y gaeaf, a lefelau uwch y môr, yn arwain at lifogydd amlach yn ystod y gaeaf."

Rydym yn meddwl y bydd hyn yn effeithio fwyaf ar y canlynol yn yr Awdurdod:

- Ymateb i argyfyngau;
- Gwaith ataliol;
- Camau gweithredu a chyfrifoldebau corfforaethol.

Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r rhain ar y tudalennau canlynol.

¹ Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol: "Effects of Climate Change on Fire and Rescue Services in the UK. Fire Research Technical Report 1/2006".

Ymateb i argyfyngau

Mae diogelu'r amgylchedd naturiol yn agwedd bwysig ar y modd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb yn weithredol.

Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod wneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- diffodd tanau, sy'n gallu digwydd y tu allan yn ogystal ag mewn adeiladau, cerbydau ac ati;
- diogelu bywyd ac eiddo os oes tân, a hynny rhag y tân ei hun a hefyd rhag unrhyw berygl eilaidd (e.e. cemegion sy'n cael eu rhyddhau yn ystod tân);
- achub pobl, a'u hamddiffyn rhag niwed difrifol os oes argyfyngau'n ymwneud â llifogydd neu ddŵr mewndirol;
- ymateb i ddigwyddiadau mawr a allai fod yn fygythiad difrifol i les bywyd gwyllt a'r amgylchedd, yn ogystal ag i bobl a/neu i'r prif gadwyni cyflenwi.

Mae'r gofynion cyfreithiol yn ymestyn i sicrhau bod y bobl sy'n delio â'r digwyddiadau brys wedi cael hyfforddiant ac offer priodol i wneud hynny.

Hefyd dan y gyfraith, mae gan yr Awdurdod bwerau i'w alluogi i gymryd camau y mae'n eu hystyried yn briodol (gan gynnwys diogelu offer) mewn sefyllfa pryd gallai pobl neu'r amgylchedd (gan gynnwys bywyd ac iechyd planhigion ac anifeiliaid) gael niwed difrifol.

Beth yw eich barn am ein hymateb i argyfyngau yn y dyfodol?

Da chi, dywedwch wrthym unrhyw beth y dylai'r Awdurdod, yn eich barn chi, ei ystyried mewn perthynas ag ymateb i argyfyngau. Efallai y bydd y canlynol yn gymorth i chi:

- A oes heriau penodol yng Ngogledd Cymru y dylai'r Awdurdod eu hystyried o ran cynllunio ei allu i ymateb i argyfyngau yn yr 20 i 30 mlynedd nesaf?
- A ddylai'r Awdurdod fod yn meddwl am addasu ei hyfforddiant i ddiffoddwyr tân neu i'r offer maent yn ei ddefnyddio er mwyn gwella ei ymateb brys?
- Pa fath o newidiadau ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd yng ngogledd Cymru (neu'r tu hwnt) ac y mae angen i'r Awdurdod ddechrau cynllunio ar eu cyfer?
- Beth, os o gwbl, fyddai'n atal yr Awdurdod rhag bod yn gallu amddiffyn yr amgylchedd, cynefinoedd, planhigion, anifeiliaid a chysiau dŵr yn y dyfodol?

Gweithgareddau ataliol

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi mewn gwaith ataliol ers rhai blynyddoedd, ac mae wedi ymrwymo i'r egwyddor ei bod yn wastad yn well atal argyfwng rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae llawer o'i waith yn ymwneud ag atal tanau mewn cartrefi oherwydd dyna lle mae pobl mewn mwyaf o berygl o gael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân. Hefyd, mae ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â gwaith ataliol wedi'i anelu'n bennaf at atal *tanau*.

Mae ei waith ataliol mewn cartrefi wedi bod yn llwyddiannus iawn. Pan wnaethom ni ofyn i'r cyhoedd yn 2015 a ddylai'r Awdurdod gadw'r amcan o ostwng nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi fel ei brif amcan, roedd mwy na 92% o'r ymatebion yn dweud y dylai wneud hynny.

Fodd bynnag, mae staff y Gwasanaeth yn gwneud gwaith ataliol mewn meysydd eraill hefyd, megis ym maes llosgi bwriadol a thirfeddianwyr yn llosgi dan reolaeth.

Beth yw eich barn am weithgareddau ataliol yn y dyfodol?

Dyma rai pethau eraill i brocio'r meddwl, ond eto teimlwch yn rhydd i ddweud unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod ei ystyried mewn perthynas â'i weithgareddau ataliol.

- O ddewis, fydddech chi eisiau gweld yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar atal tanau mewn cartrefi, ynteu a ddylai newid ei bwyslais tuag at atal tanau yn yr awyr agored?
- Heblaw atal tanau, a oes unrhyw beth arall y gallai'r Awdurdod ddefnyddio ei arbenigedd ataliol ar ei gyfer?
- A ydych chi'n gallu gweld gwaith ataliol yr Awdurdod yn newid yn y dyfodol? Neu efallai eich bod yn meddwl y dylai'r newid ddechrau nawr? Os hynny, sut?

Gweithgareddau corfforaethol

Y tu ôl i'r gweithgareddau ataliol a'r ymateb brys 999 mae amrywiaeth eang o weithgareddau corfforaethol. Heb y rhain, ni fyddai modd cyflawni'r gweithgareddau 'rheng flaen'. Ni fyddai unrhyw adroddiadau nac atebolrwydd i'r cyhoedd, dim rheolaeth ariannol, neb i ofalu am y canlynol, er enghraifft: caffael offer, rhoi serfis i gerbydau, gwirio hydrantau; cadw ffonau a chyfrifiaduron yn gyfredol ac yn gweithio; prynu a thalu am nwyddau a gwasanaethau; gofalu am orsafoedd tân a'r tir o'u cwmpas; cyflogi, hyfforddi a thalu staff; cadw cofnodion ac adrodd ynghylch gwybodaeth.

Hefyd, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu cyflawni llawer o'i rwymedigaethau cyfreithiol tuag at agweddau fel iechyd a diogelwch, gwiriadau diogeled, diogelu ("*safeguarding*"), cydraddoldeb, cynllunio ar gyfer argyfyngau sifil, safonau'r Gymraeg, diogelu data, rhyddid gwybodaeth; ac wrth gwrs, cynllunio gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a diogelu'r amgylchedd.

O ran datblygu Strategaeth Amgylcheddol, dyma gyfle i ystyried beth allai atal yr Awdurdod rhag darparu ei wasanaethau yn y dyfodol, a pha effeithiau cadarnhaol a negyddol y byddai gweithgareddau'r Awdurdod yn eu cael ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae'r materion yn gymhleth. Ystyriwch y canlynol, er enghraifft:

- Mae diffodd tanau yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, ond beth am ôl troed carbon yr offer sydd ei angen i wneud hynny? Beth am y ffordd mae'r Gwasanaeth yn defnyddio dŵr i ddiffodd tanau? Mae buddsoddi mewn offer newydd yn codi cwestiynau am fforddiadwyedd. Mae newid polisiau a gweithdrefnau yn codi cwestiynau am allu a risg.
- Mae diweddarau cyfrifiaduron yn amddiffyn rhag ymosodiadau seiber ar systemau electronig y Gwasanaeth, ond beth am yr effaith y gallai prynu cyfrifiaduron newydd ei chael ar yr amgylchedd? Nid yw amser staff ac adnoddau yn ddi-ben-draw – beth ddylai'r Awdurdod ei ystyried wrth geisio cael cydbwysedd rhwng ei gyfrifoldebau tuag at yr amgylchedd a'i holl gyfrifoldebau eraill?

Beth yw eich barn am weithgareddau corfforaethol yn y dyfodol?

- Sut gallai'r Awdurdod ei wneud ei hun yn sefydliad mwy effeithlon yn amgylcheddol?
- Pa egwyddorion ddylai eu dilyn wrth sicrhau cydbwysedd rhwng ei angen i ddarparu gwasanaethau brys a'i gyfrifoldeb corfforaethol tuag at yr amgylchedd?
- Pa syniadau sydd gennych am y modd y gallai'r Awdurdod a) leihau ei effeithiau negyddol neu b) cynyddu ei effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd?
- Beth arall gallai'r Awdurdod ei wneud? A oes unrhyw newidiadau sylfaenol, er enghraifft, y dylai fod yn gweithio tuag atynt nawr er mwyn iddo fod yn fwy effeithlon yn amgylcheddol yn y dyfodol?